CYMRU FYD-EANG
GLOBAL WALES

# Adroddiad Blynyddol **Cymru Fyd-eang** 2023-24

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair y Cadeirydd | 4 |
| Crynodeb | 5 |
| Pwrpas | 9 |
| Effaith | 10 |
| India | 11 |
| UDA | 14 |
| Canada | 16 |
| Fietnam | 18 |
| Ewrop | 20 |
| Astudio yng Nghymru | 23 |
| Ysgoloriaethau | 25 |
| Addysg Bellach | 27 |
| Llywodraethiant | 28 |
| Crynodeb Ariannol | 30 |

# Rhagair y Cadeirydd



Mae wedi bod yn bleser unwaith eto cadeirio Cymru Fyd-eang eleni. Mewn cyfnod o her, newid a chyfleoedd, mae adroddiad blynyddol Cymru Fyd-eang eleni'n dyst i'n gwytnwch, ein gallu i addasu, a'n hymrwymiad i hyrwyddo presenoldeb rhyngwladol Cymru er gwaethaf heriau ariannol digynsail.

Fel llawer o sectorau eraill, mae addysg wedi teimlo effaith toriadau yn y sector cyhoeddus, ac yn ystod ein hail flwyddyn, cafodd cyllideb Cymru Fyd-eang ei thorri 50%.

Heb os, achosodd hyn rwystrau sylweddol, ond roedd hefyd yn gatalydd ar gyfer arloesi, ad-drefnu strategol, a ffocws o'r newydd ar yr hyn sy'n wirioneddol bwysig, gyda phenderfyniadau anodd ac ailosod blaenoriaethu. Mae gweithrediadau wedi'u symleiddio ac mae adnoddau wedi'u canolbwyntio ar feysydd lle gallem greu'r effaith fwyaf. Er bod y mesurau hyn yn angenrheidiol, roeddent hefyd yn atgyfnerthu ein cryfderau craidd - cydweithredu, dyfeisgarwch, a gweledigaeth a rennir ar gyfer Cymru â chysylltiadau byd-eang.

Bellach yn ein nawfed flwyddyn ac ail flwyddyn rhaglen Cymru Fyd-eang III, rydym wedi parhau i adeiladu pontydd gyda phartneriaid rhyngwladol allweddol, gan greu cyfleoedd ar gyfer cydweithio academaidd, rhagoriaeth ymchwil, a symudedd myfyrwyr. Mae ein ffocws strategol ar ranbarthau allweddol, gan gynnwys India, Gogledd America, Fietnam ac Ewrop, wedi ein galluogi i ddyfnhau ein hymgysylltiad a meithrin perthnasoedd sydd o fudd i'r naill ochr a allai fod yn sylfaen ar gyfer twf ac arloesedd yn y dyfodol.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda'n prifysgolion a'n colegau i addasu i'r realiti ariannol newydd. Blaenoriaethwyd mentrau a allai sicrhau gwerth uchel gydag adnoddau cyfyngedig, ac rydym yn falch o'r hyn a gyflawnwyd eleni wrth gefnogi sefydliadau sy'n wynebu gostyngiadau sylweddol mewn recriwtio myfyrwyr rhyngwladol. Yn ogystal â gweithgareddau marchnata a gynlluniwyd ar gyfer hyrwyddo Cymru fel cyrchfan astudio, cychwynnwyd ymgyrch Astudio yng Nghymru ar fyr-rybudd ar ôl cadarnhau parhad Llwybr y Graddedigion i gyrraedd ymgeiswyr heb eu cadarnhau yn India.

Mae partneriaeth ryngwladol yn parhau i fod wrth galon ein cenhadaeth. Eleni, rydym wedi cymryd camau sylweddol i gefnogi prosiectau ymchwil cydweithredol sy'n mynd i'r afael â rhai o'r heriau byd-eang mwyaf enbyd, o newid hinsawdd i iechyd cyhoeddus. Trwy gyllid sbarduno a ddarparwyd gan Gymru Fyd-eang, mae 21 o bartneriaethau wedi'u sefydlu rhwng sefydliadau Cymreig a rhyngwladol, ac mae'r mentrau hyn yn tanlinellu pwysigrwydd cydweithredu rhyngwladol a'r rôl y mae Cymru'n ei chwarae wrth gyfrannu at ddatrysiadau byd-eang.

i ni fyfyrio ar y flwyddyn heriol hon, rydym yn gwneud hynny gyda theimlad o falchder yn yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni. Er bod y dirwedd ariannol yn parhau i fod yn ansicr, mae ein penderfyniad i osod Cymru fel arweinydd ym maes addysg, ymchwil, a chydweithio rhyngwladol yn gryfach nag erioed.

**Dr Ben Calvert,**
**Cadeirydd Cymru Fyd-eang**

# Crynodeb

## Llwyddodd Cymru Fyd-eang i ehangu eu heffaith ryngwladol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gyflwyno 62 o fentrau ar draws Fietnam, Canada, UDA, India ac Ewrop. Ymgysylltodd dros 31,000 o unigolion a 179 o gydweithwyr yn y sector Cymreig â'r gweithgareddau hyn, trwy ddirprwyaethau, ymgyrchoedd marchnata, datblygiad partneriaethau a mwy. Mae'r rhaglen wedi parhau â'i hail flwyddyn o gydweithio â'r sector addysg bellach, gan osod pwyslais ar adeiladu partneriaeth ac ymgysylltu byd-eang.

Yn India, ar draws taleithiau Telangana a Karnataka, lwyddodd Cymru Fyd-eang i gryfhau seiliau eu gwaith trwy gymryd rhan yng nghynhadledd Addysg Draws-Wladol (TNE) fwyaf y DU, yn ogystal â'u hymweliad eu hunain â'r nod o ddatblygu'r farchnad, gan ehangu ymhellach y cyfleoedd ar gyfer colegau addysg bellach Cymru yn India. Mae prosiectau nodedig yn cynnwys cydweithredu ar STEM, cerbydau trydan (EV), a chydnabod cymwysterau'r naill a'r llall, sioe deithiol recriwtio Astudio yng Nghymru ac ymgyrchoedd digidol.

Parhaodd gwaith yn UDA i dyfu ar sawl lefel gyda chyfranogiad yn NAFSA 2024, gan ddatblygu a darganfod cyfleoedd partneriaeth. Fel marchnad recriwtio allweddol, datblygodd Cymru Fyd-eang ymhellach y berthynas gref â sector cynghorwyr ysgolion uwchradd yr Unol Daleithiau, gyda phresenoldeb yng nghynhadledd y Gymdeithas Genedlaethol Cwnsela ar gyfer Dderbyn i Golegau (NACAC) a thaith Astudio yng Nghymru ar gyfer 28 o gynghorwyr o'r Unol Daleithiau. Yn sgil cynhadledd flaenorol NAFSA, cynhaliwyd menter allweddol yn canolbwyntio ar adeiladu partneriaethau mewn gweithgynhyrchu uwch a chynhyrchu lled-ddargludyddion, a chytunwyd ar gynnydd pellach ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Cryfhaodd Cymru Fyd-eang ei pherthnasoedd yng Nghanada mewn cynadleddau allweddol, yn ogystal â chyfarfodydd penodol yn Calgary a Toronto ar gyfer colegau a phrifysgolion, gan hwyluso cydweithrediadau mewn addysg, ymchwil a symudedd trawswladol. Mae ffrwyth y datblygiadau hyn bellach yn dod i'r amlwg mewn partneriaethau a gweithgarwch sefydliadol ffurfiol.

Yn Ewrop, llwyddodd Cymru Fyd-eang i gryfhau cysylltiadau â phartneriaid yn Fflandrys a'r Almaen, gan gefnogi cyfranogiad prifysgolion Cymru mewn cyfleoedd ymchwil Ewropeaidd. Cynhaliodd y rhaglen hefyd nifer o ddigwyddiadau recriwtio, yn ogystal ag ymgyrchoedd marchnata digidol yn Ffrainc a'r Almaen.

Mae gwaith Cymru Fyd-eang gyda Fietnam wedi'i adeiladu ar y perthnasoedd a'r partneriaethau sydd wedi'u meithrin dros nifer o flynyddoedd. Roedd hyn yn cynnwys dyrannu grantiau i gefnogi mentrau cydweithredol ym maes deallusrwydd artiffisial (AI), dysgu peirianyddol, a thechnoleg amaeth, yn ogystal â cham olaf ein prosiect a ariennir gan y Cyngor Prydeinig ar gydraddoldeb rhywedd mewn addysg uwch.

Trwy frand Astudio yng Nghymru, mae Cymru Fyd-eang wedi cynnal ymgyrchoedd marchnata cyrchfan ar ran y sector addysg uwch. Cyrhaeddodd ymgyrchoedd digidol gynulleidfaoedd recriwtio ar draws UDA, India, Ffrainc a'r Almaen, gan greu 417 miliwn o argraffiadau, 6.3 miliwn o gliciau gwe a thros 86,000 o drosglwyddiadau i dudalennau gwe prifysgolion. Ynghyd â hyn, sicrhaodd strategaeth cynhyrchu deunyddiau barhaus ar gyfer colegau a phrifysgolion fod gwybodaeth berthnasol a diddorol bob amser ar gael ar wefan Astudio yng Nghymru ac yn cael ei rhannu ar gyfryngau cymdeithasol.

Cyflwynodd Cymru Fyd-eang flwyddyn arall o'u rhaglen ysgoloriaeth, gan barhau i greu llysgenhadon oes i Gymru a'i sefydliadau. Gan weithio mewn partneriaeth â Rhaglen Ysgoloriaeth Ryngwladol Benjamin A. Gilman, Adran Gwladwriaeth yr Unol Daleithiau a rhaglen Chevening y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO) yn Fietnam ac India, yn ogystal â chynnal rhaglen ysgoloriaethau ôl-raddedig Cymru Fyd-eang ei hun, dyrannwyd 36 o ysgoloriaethau wedi'u hariannu eleni.  Ategwyd y rhain gan ddigwyddiadau ymgysylltu ag ysgolheigion gan gynnwys datblygu arweinyddiaeth, ymweliadau diwylliannol a chyfleoedd ar gyfer rhwydweithio.

“

## Yr hyn mae Cymru Fyd-eang yn ei wneud [ychwanegu gwerth], ymagwedd un-Gymru ar ran y sector gan gynnwys partneriaid allweddol yn y Llywodraeth, sefydliadau, y Cyngor Prydeinig... yr ymagwedd gyfannol yw'r hyn sy'n ein gwahanu.

**Dyfyniad allan o werthusiad allanol Wavehill - Cymru Fyd-eang (III) Gwerthusiad o'r Cam Cychwynnol**

# Pwrpas

Eleni oedd nawfed flwyddyn partneriaeth Cymru Fyd-eang, yn ogystal â chwblhau ail flwyddyn rhaglen Cymru Fyd-eang III, a ariennir gan Lywodraeth Cymru trwy Taith. Mae rhaglen Cymru Fyd-eang III yn darparu ymagwedd strategol a chydweithredol at addysg uwch ac addysg bellach ryngwladol yng Nghymru, ac mae'n bartneriaeth rhwng Prifysgolion Cymru, ColegauCymru, Llywodraeth Cymru, Cyngor Prydeinig Cymru, a Medr - Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

## Mae gan raglen Cymru Fyd-eang III bedwar amcan:

**un.**

cynyddu niferoedd myfyrwyr rhyngwladol o ardaloedd blaenoriaeth

**dau.**

cynnal a thyfu partneriaethau mewn marchnadoedd blaenoriaeth

**tri.**

cynhyrchu enillion allforio ychwanegol i Gymru o farchnadoedd blaenoriaeth

**pedwar.**

cynyddu ymwybyddiaeth ac enw da prifysgolion a cholegau addysg bellach Cymru ymhlith marchnadoedd blaenoriaeth

Roedd y cynllun gwreiddiol ar gyfer rhaglen Cymru Fyd-eang III yn ymestyn ymgysylltiad â marchnadoedd blaenoriaeth, gan archwilio lle gallai'r rhaglen ychwanegu gwerth orau, manteisio ar gyfleoedd, a gweithio mewn ffordd gydweithredol o system-i-system.

**Y marchnadoedd hyn oedd:**

- Gogledd America (UDA a Chanada)
- Fietnam
- India (gan ganolbwyntio ar Telangana a Karnataka)
- Ewrop (gan ganolbwyntio ar Ffrainc, yr Almaen, Fflandrys ac Iwerddon)

Rhan o'r ffordd trwy ail flwyddyn rhaglen Cymru Fyd-eang III, yn dilyn gostyngiadau mewn cyllido gan Lywodraeth Cymru o 50%, cafodd y cynllun ei addasu gan fynd ati i gyflawni'n symlach ar draws holl feysydd y rhaglen.

Mae Cymru Fyd-eang, gan gynnwys Cymru Fyd-eang III a gweithgareddau eraill a ariennir yn allanol, megis ein cyfranogiad yn y rhaglen Partneriaethau Mynd yn Fyd-eang, yn cael eu cyflwyno gan Brifysgolion Cymru.

# Effaith

Ar draws Fietnam, Canada, UDA, India ac Ewrop, gan weithio gyda thros 31,000 o bobl a 179 o gydweithwyr yn y sector Cymreig, mae Cymru Fyd-eang wedi cyflwyno 62 o fentrau trwy gydol y flwyddyn. Roedd y rhain yn cynnwys dirprwyaethau, ymgyrchoedd marchnata a galwadau am bartneriaeth, i enwi dim ond rhai.

Yn yr ail flwyddyn o weithio gydag addysg bellach, mae'r trefniadau cydweithredol hyn wedi bod yn rhan o'r ddarpariaeth uchod. Mae mwy o fanylion wedi'u cynnwys yn yr adran ar Addysg Bellach yr adroddiad i dynnu sylw at y gwaith hwn.

# Ffeithiau a Ffigurau

Ariannwyd
**21**
o bartneriaethau newydd

Cyflwynwyd
**36**
o ysgoloriaethau

Derbyniwyd
**1,562**
o geisiadau am ysgoloriaethau eleni

## Ymgyrchoedd marchnata Astudio yng Nghymru

**417m**
miliwn o argraffiadau digidol

**6.3m**
miliwn o gliciau'n gyrru traffig i wefan Astudio yng Nghymru

**86k**
o ddolenni i dudalennau gwe prifysgolion

**500k**
Anfonwyd 500k o e-byst at gynulleidfaoedd cylchlythyron gyda chyfradd agor gyfartalog o

# India

## Mae ymgysylltu â phartneriaid allweddol yn India, yn benodol Telangana a Karnataka, wedi bod wrth wraidd gwaith Cymru Fyd-eang wrth iddynt barhau i ysgogi ymgysylltu a chreu cyfleoedd ar gyfer sector addysg bellach ac uwch Cymru. Mewn blwyddyn brysur a fu'n aml yn heriol, mae'r gweithgareddau canlynol yn enghraifft o allu Cymru Fyd-eang i gyd-drefnu cyfleoedd a sbarduno cyfranogiad.

O dan frand Astudio yng Nghymru, trefnodd Cymru Fyd-eang sioe deithiol recriwtio ar gyfer prifysgolion Cymru, gan ymweld ag wyth ysgol yn Hyderabad a Bengaluru, gyda chyfranogiad personol gan gynrychiolwyr o dair prifysgol yng Nghymru.

Mynychodd Cymru Fyd-eang gynhadledd flynyddol Cwnselwyr Coleg Gyrfa IC3, gyda thros 1,300 o gynrychiolwyr prifysgol a chwnselwyr ysgol uwchradd yn bresennol. Yn y gynhadledd, trefnodd Cymru Fyd-eang gysylltiadau â 25 o gwnselwyr newydd o India.

Cymerodd Cymru Fyd-eang ran yn nirprwyaeth TNE Addysg Uwch fwyaf y DU i India, gyda thros 26 o brifysgolion y DU yn bresennol. Roedd yr ymweliad, a drefnwyd gan yr Adran Busnes a Masnach a Chyngor Prydeinig India, yn cynnwys cynhadledd Addysg Uwch India-DU oedd â'r nod o archwilio materion allweddol yn ymwneud â Chydnabod Cymwysterau'r naill wlad a'r llall (MRQs), a chyfleoedd ar gyfer TNE ar ffurf dysgu o bell ar-lein.

Trefnwyd cyfarfod bwrdd-crwn rhithwir i drafod 'Cyflwyniad i'r Farchnad yn India' ar gyfer y sector addysg bellach yng Nghymru. Rhoddodd y digwyddiad drosolwg o'r farchnad, polisi Addysg Cenedlaethol India a chyfleoedd posibl ar gyfer AB yn India ar draws gwahanol sectorau, gan gynnwys cerbydau trydan (EV), nyrsio a gweithgynhyrchu.

Yn sgil tair galwad am ariannu gan Gymru Fyd-eang, dyrannwyd cyfanswm o £50,000 i naw prifysgol a choleg yng Nghymru. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Tair partneriaeth â phrifysgolion yn Karnataka ar gynyddu capasiti
- Pedair partneriaeth gyda Sefydliad Gwyddoniaeth India (IISc) yn datblygu partneriaethau STEM
- Un asesiad o ddiwydiannau cerbydau trydan allweddol yn nhaleithiau blaenoriaeth Cymru Fyd-eang – Telangana a Karnataka

Arweiniodd Cymru Fyd-eang ddirprwyaeth o uwch gynrychiolwyr o bedwar coleg addysg bellach ar daith sgiliau i India. Mynychodd y cynrychiolwyr hefyd ddigwyddiad Dydd Gŵyl Dewi Llywodraeth Cymru yn Bengaluru fel rhan o'u gweithgaredd Cymru yn India.

Cefnogodd Cymru Fyd-eang Grŵp Colegau NPTC a Grŵp Llandrillo Menai i asesu'r diwydiant cerbydau trydan ar draws Telangana a Karnataka.

Trefnodd Cymru Fyd-eang ymweliad gan randdeiliaid allweddol o Gyngor Addysg Uwch Talaith Karnataka yn ogystal â Chyfarwyddwr Gwlad Cyngor Prydeinig India. Roedd y rhaglen yn cynnwys ymweliadau â Chanolfan Ymchwil Drosiadol (TRH) Prifysgol Caerdydd, yr Ysgol Dechnolegau ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd a champws NPTC yng Nghastell-nedd, gan arddangos rhai o'r prosiectau sydd eisoes ar y gweill rhwng Cymru a Karnataka, yn ogystal ag archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithredu pellach.

Gan fanteisio ar gais llwyddiannus am grant bach gan Gymru Fyd-eang yn 2022 cynhaliwyd y Great AppSec Hackathon 2024, dan arweiniad Cyngor Diogelwch Data India mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd a Chanolfan Astudiaethau Strategol yr Hâg. Cyfranogodd mwy na 10,000 o fyfyrwyr o bob rhan o'r byd er mwyn codi ymwybyddiaeth o fygythiadau diogelwch, meithrin sgiliau, darparu cyfleoedd gwaith, a chryfhau gallu seiberddiogelwch yn rhyngwladol.



# Dirprwyaeth addysg bellach i Telangana a Karnataka

Trefnodd Cymru Fyd-eang ddirprwyaeth o arweinwyr addysg bellach i India ym mis Mawrth 2024, gyda chefnogaeth Taith, ColegauCymru, Llywodraeth Cymru yn India, FCDO yn India a'r Cyngor Prydeinig yn India. Yn ystod rhaglen wythnos, ymwelodd cynrychiolwyr o bum coleg yng Nghymru â phartneriaid allweddol mewn addysg, llunio polisi, ymchwil a diwydiant i archwilio cyfleoedd ar gyfer partneriaeth yn Bengaluru a Hyderabad.

Amlygodd yr ymweliad amryw o gyfleoedd i sefydlu a datblygu cynlluniau cydweithio, yn enwedig mewn meysydd pwnc allweddol megis peirianneg a gweithgynhyrchu uwch, y sectorau awyrofod a gofod, biotechnoleg a lled-ddargludyddion. Yn sail i hyn, mae'r angen i bartneriaid fynd i'r afael â heriau byd-eang, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, iechyd y boblogaeth, cerbydau trydan ac AI, wedi sicrhau bod y sgyrsiau a ddechreuwyd yn ystod yr ymweliad wedi datblygu'n gysylltiadau, rhwydweithiau, partneriaethau a phrosiectau newydd.

O ganlyniad i'r ymweliad, mae gweithgor sgiliau wedi'i sefydlu gyda phartneriaid allweddol yn Karnataka, mae Cymru wedi croesawu dirprwyaeth o uwch arweinwyr o weinidogaethau Talaith Karnataka, ac mae prosiectau parhaus ar y gweill neu'n cael eu datblygu gyda chymorth Cymru Fyd-eang. Mae'r prosiect hwn yn enghraifft o werth ac effeithiolrwydd cydberthnasau Cymru Fyd-eang â phartneriaid allweddol, gan alluogi rhannu adnoddau a gwybodaeth i greu rhaglenni gweithgaredd sy'n darparu budd a rennir a mwy o effaith.

> Roedd hon yn ddirprwyaeth ddefnyddiol a diddorol a heriodd fy ystrydebau, gan roi amser i mi brosesu sut y gallwn symud ymlaen yn y maes hwn. Roedd yn gyfle i drafod pynciau pwysig ac roeddwn yn gallu gweld cyfleoedd clir i wella profiad dysgwyr a staff, yn ogystal ag asesu rhai risgiau sy'n gysylltiedig ag unrhyw ymweliad addysgol posibl.

**Vanessa Cashmore, Coleg Sir Gâr/Coleg Ceredigion**

# UDA

Mae UDA yn farchnad sydd wedi'i hen sefydlu sy'n seiliedig ar recriwtio, lle mae brand Astudio yng Nghymru wedi'i ddefnyddio i godi ymwybyddiaeth o Gymru fel cyrchfan astudio. Gwneir hyn trwy weithgarwch datblygu'r farchnad, ar draws digwyddiadau recriwtio a thrwy feithrin perthynas gref â'r sector cynghorwyr ysgol.

Ymunodd pum prifysgol â Chymru Fyd-eang wrth arddangos yng nghynhadledd y Gymdeithas Genedlaethol Cwnsela ar gyfer Derbyn i Golegau yn Baltimore, a fynychwyd gan dros 6,000 o gynghorwyr ysgolion uwchradd. Yn y digwyddiad, cynhaliodd Cymru Fyd-eang dderbyniad Astudio yng Nghymru, yn ogystal â sesiwn hyfforddi am yr arlwy addysg uwch yng Nghymru.

Cynhaliodd Cymru Fyd-eang eu taith Astudio yng Nghymru flynyddol ar gyfer cynghorwyr, gan groesawu 28 o gynghorwyr ysgolion uwchradd o'r Unol Daleithiau a Chanada i Gymru, oedd yn gyfle i dynnu sylw at bob un o'r wyth prifysgol sy'n recriwtio'n rhyngwladol. Mae teithiau fel y rhain yn hynod ddylanwadol, gan helpu i'r cynghorwyr ymgyfarwyddo â'r system addysg yng Nghymru, ac i arddangos y cyfleusterau a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio yma.

Yn ogystal â'r daith, dosbarthodd Cymru Fyd-eang gylchlythyr misol i 45,000 o gynghorwyr sydd wedi'u lleoli yn UDA. Anfonwyd deuddeg cylchlythyr ychwanegol ar ran prifysgolion Cymru at grwpiau penodol o gynghorwyr i gynorthwyo â'u gweithgarwch recriwtio. Yn ystod y flwyddyn, anfonodd Cymru Fyd-eang fwy na 500,000 o e-byst unigol, gan gynhyrchu dros 210,000 o ryngweithiadau (bob tro mae'r ddolen i'r wefan yn cael ei hagor).

Mynychodd Cymru Fyd-eang gynhadledd NAFSA yn New Orleans gyda chwe phrifysgol o dan frand Astudio yng Nghymru. Y gynhadledd hon yw arddangosfa addysg uwch ryngwladol fwyaf y byd, gan groesawu 8,500 o broffesiynwyr addysg. Ymgysylltodd tîm Cymru Fyd-eang â thros 60 o sefydliadau a chyfarfu'r prifysgolion â thros 70 o bartneriaid newydd a mwy na 90 o bartneriaid sydd ganddynt eisoes.

Cynhaliodd Cymru Fyd-eang ddigwyddiad bwrdd-crwn ar-lein ar y cyd â Study Tennessee, yn edrych ar bartneriaethau posibl rhwng prifysgolion sy'n canolbwyntio ar weithgynhyrchu uwch a chynhyrchu lled-ddargludyddion. Roedd y fenter hon yn cynnwys cyfraniadau gan Lywodraeth Cymru, Gwasanaethau Masnachol UDA a Phrifysgolion Cysylltiedig Oak Ridge. Bydd Cymru Fyd-eang yn trefnu ymweliad cychwynnol â Chymru gan Brifysgolion Cysylltiedig Oak Ridge, gan ymweld â chyfleusterau dargludyddion cyfansawdd mwyaf blaenllaw Cymru ac archwilio cyfleoedd ar gyfer partneriaeth academaidd.

# Ymweliad gan gynghorwyr

Yng ngwanwyn 2024, croesawodd Cymru Fyd-eang 28 o gynghorwyr ysgolion uwchradd o Ogledd America i Gymru, gan hyrwyddo pob un o'r wyth prifysgol sy'n recriwtio'n rhyngwladol. Mae teithiau fel hyn yn galluogi cwnselwyr ysgol uwchradd sy'n cynghori darpar fyfyrwyr israddedig sydd am astudio dramor i siarad yn awdurdodol ac yn bersonol am yr hyn sydd gan brofiad prifysgol yng Nghymru i'w gynnig. Meddai Jenny Fisher, cynghorydd ysgol uwchradd o Dallas, am yr ymweliad:

Roedd y daith yn wych - mor addysgiadol ac mor gadarnhaol. Roedd pawb y cwrddon ni â nhw'n gyfeillgar, yn barod i helpu, ac yn llawn gwybodaeth. Rwyf mewn sefyllfa cymaint gwell i siarad am brifysgolion Cymru, a byddaf yn bendant yn eu hargymell i'm myfyrwyr.

O roboteg uwch, cyfleusterau chwaraeon o'r radd flaenaf a phwerdai'r diwydiant creadigol, i longau ymchwil morol, adrannau gwyddor bywyd byd-enwog ac offer efelychu gofal iechyd uwch-dechnoleg, gwnaeth pob prifysgol argraff ar y cynghorwyr. Dywedodd Kel McDowell, cynghorydd o Vancouver:

Roedd popeth am y daith hon yn werthfawr. Dysgais gymaint am bob prifysgol a'r rhaglenni penodol y gwnaethom eu harchwilio'n fanwl. Rwyf eisoes wedi siarad â dau fyfyriwr y teimlaf y byddent yn addas ar gyfer astudio yng Nghymru.

Gadawodd y cynghorwyr hyn Gymru gyda llawer o brofiadau a gwybodaeth newydd i'w rhannu â myfyrwyr ysgol uwchradd o'r UD a Chanada a oedd am astudio dramor. Diolchodd Auna Hearne o Houston i Gymru Fyd-eang am y 'cyfle i ymweld â'r wlad hardd hon a'i phrifysgolion anhygoel'. Meddai hi: "Byddwn yn argymell y profiad hwn i unrhyw gwnselydd sy'n gweithio gyda myfyrwyr sydd â diddordeb mewn dilyn eu hastudiaethau dramor. Mae Cymru'n lle gwych!"



# Canada

Mae'r cyfleoedd yng Nghanada yn canolbwyntio'n gryf ar feithrin partneriaethau – naill ai'n uniongyrchol rhwng Cymru Fyd-eang a phartneriaid yng Nghanada neu trwy gyd-drefnu a hwyluso partneriaethau ar ran prifysgolion a cholegau Cymru.

Ieni, mynychodd Cymru Fyd-eang gynhadledd Biwro Canada ar gyfer Addysg Ryngwladol yn Vancouver, lle cyfarfu'r tîm â phartneriaid strategol Cymru Fyd-eang, Prifysgolion Canada a Cholegau ac Athrofeydd Canada (CICAN). Roedd yr ymweliad hefyd yn gyfle i wneud cyflwyniad i grŵp o gwnselwyr a chynnig trosolwg o'r cyfleoedd i fyfyrwyr o Ganada astudio yng Nghymru.

Bu Cymru Fyd-eang hefyd yn arddangos yng nghynhadledd CICAN yn Calgary, lle mynychodd 1,200 o gynrychiolwyr y gynhadledd o bob rhan o'r sector ôl-uwchradd, gan gefnogi presenoldeb o golegau Cymru. Yn dilyn y gynhadledd, cyfarfu Cymru Fyd-eang â cholegau a phrifysgolion yn Calgary a Toronto i greu cysylltiadau ac archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithio. Yna rhannwyd papur a oedd yn amlinellu cyfleoedd i gydweithio ym maes TNE, ymchwil a symudedd gyda cholegau a phrifysgolion Cymru, ac o'r rhain mae partneriaethau a modelau cydweithio rhwng sefydliadau yng Nghymru a Chanada eisoes yn cael eu datblygu.

Mewn partneriaeth â Phrifysgolion Canada, CICAN a CholegauCymru, cyflwynodd Cymru Fyd-eang weminar i fwy na 60 o aelodau Prifysgolion Canada a CICAN. Roedd y weminar yn darparu gwybodaeth am y sectorau addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru, yn ogystal â chyflwyno cyfleoedd ar gyfer partneriaethau gyda Chymru Fyd-eang, Taith, Turing a rhaglen Cyfleoedd Byd-eang Canada.

Tynnwyd sylw at Gymru Fyd-eang a'u gweithgarwch partneriaeth gan yr Uchel Gomisiynydd yn ei anerchiad croeso yn Canada House. Roedd y derbyniad yn gyfle i ddatblygu perthnasoedd Cymru ymhellach yng Nghanada.



# Partneriaeth rhwng Coleg Sir Benfro a Choleg Gogledd yr Iwerydd

Un o feysydd gwaith allweddol Cymru Fyd-eang yw cynnal a thyfu partneriaethau mewn marchnadoedd blaenoriaeth, gan ddod â sefydliadau addysg bellach ac uwch yng Nghymru ynghyd â'u cymheiriaid rhyngwladol i archwilio cydweithio mewn meysydd sydd o ddiddordeb i'r naill ochr a'r llall.

Yn ystod dirprwyaeth Cymru Fyd-eang i Montreal, mynychodd penaethiaid saith coleg yng Nghymru gynhadledd flynyddol Ffederasiwn Colegau a Pholytechnig y Byd a Cholegau ac Athrofeydd Canada (CICAN).

Mewn derbyniad rhwydweithio a drefnwyd gan Gymru Fyd-eang, cyfarfu Pennaeth Coleg Sir Benfro â chynrychiolwyr o Goleg Gogledd yr Iwerydd - cyfarfod sydd wedi arwain at bartneriaeth cyfnewid gwybodaeth barhaus ym meysydd ynni adnewyddadwy a menywod mewn peirianneg.

Ymwelodd cynrychiolwyr o Goleg Gogledd yr Iwerydd (CNA) â Sir Benfro, ac yna teithiodd saith aelod o staff Sir Benfro ac aelod o'r awdurdod lleol i CNA yn Newfoundland, Canada. Roedd yr ymweliadau, mewn partneriaeth â CholegauCymru, yn canolbwyntio ar gyfnewid gwybodaeth wrth gyflwyno cwricwlwm peirianneg ynni ac archwilio datblygiadau diweddar mewn ynni adnewyddadwy yng Nghanada.

Ymwelodd y grŵp o Sir Benfro hefyd â chanolfan hyfforddi tyrbinau gwynt i ddysgu mwy am y ddarpariaeth yn y Coleg, gan rannu cwricwlwm Coleg Sir Benfro ar gyfer eu rhaglen 'Destination Renewables'. Mae hon yn fenter ar y cyd rhwng EDF Renewables UK, DP Energy a Choleg Sir Benfro i ddylunio a chyflwyno cwrs dwy flynedd i baratoi pobl ifanc 16–18 oed ar gyfer y farchnad swyddi ynni adnewyddadwy yn y dyfodol. Mae hyn yn cysylltu â datblygiad fferm wynt arnofiol newydd yn y môr Celtaidd, gan ddod â chyfleoedd enfawr i'r rhanbarth lleol a chyfle i goleg Sir Benfro ddarparu'r hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer y sgiliau sydd eu hangen.

Ym mis Mai, llofnodwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Coleg Sir Benfro, Coleg Gogledd yr Iwerydd a Chyngor Sir Benfro. Mae astudiaeth wedi darganfod y gallai ffermydd gwynt arnofiol yn y Môr Celtaidd greu hyd at 5,300 o swyddi newydd a chynhyrchu £1.4bn i economi'r DU. Bydd rhai o ffermydd gwynt arnofiol mwyaf y byd yn cael eu hadeiladu yn y Môr Celtaidd.

"

Roedd yr ymweliad â Montreal a ariannwyd gan Gymru Fyd-eang yn ddechrau partneriaeth waith wych rhwng Coleg Sir Benfro a Choleg Gogledd yr Iwerydd.

**Barry Walters, Pennaeth Coleg Sir Benfro**

# Fietnam

## Mae gwaith Cymru Fyd-eang eleni wedi'i adeiladu ar y perthnasoedd a'r partneriaethau sydd wedi'u meithrin trwy eu hymgysylltiad â phartneriaid allweddol yn y DU a Fietnam dros nifer o flynyddoedd.

Cymerodd Cymru Fyd-eang ran yng Nghenhadaeth TNE Addysg Uwch yr Adran Busnes a Masnach (DBT) i Da Nang, Hanoi a Hai Phong fel rhan o ymweliad datblygu marchnad ehangach. Yn ogystal â chyfarfod â'r Weinyddiaeth Addysg a Hyfforddiant (MOET) a chynrychiolwyr rhanbarthol o Bwyllgor y Bobl, cysylltodd Cymru Fyd-eang hefyd â phrifysgolion yn Hanoi, Can Tho, Hue a Da Nang i adolygu partneriaethau ac archwilio meysydd newydd ar gyfer cydweithio.

Lansiwyd galwad am bartneriaethau Cymru Fyd-eang - sy'n cefnogi cysylltiadau â sefydliadau yn Fietnam - mewn derbyniad rhwydweithio yn Llysgenhadaeth Fietnam lle'r oedd y siaradwyr yn cynnwys Llysgennad Fietnam i'r DU, Is-Weinidog MOET, Cyngor Prydeinig Fietnam a Chadeirydd CCAUC. Yn ystod cylchred partneriaeth eleni, dyrannwyd £45,000 trwy naw grant, gan alluogi cydweithredu sefydliadol ym meysydd AI, dysgu peirianyddol, trawsnewid digidol, amaethyddiaeth gynaliadwy a thechnoleg amaeth.

Eleni oedd blwyddyn olaf prosiect Cymru Fyd-eang o dan Bartneriaeth Mynd yn Fyd-eang y Cyngor Prydeinig, a gysylltodd bedair prifysgol yng Nghymru â phedair prifysgol yn Fietnam. Roedd y prosiect wedi bod ar waith ers Ionawr 2022 ac yn canolbwyntio ar gydraddoldeb rhywedd mewn addysg uwch. Eleni, cynhaliwyd dau weithgaredd allweddol i hyrwyddo partneriaeth barhaus ac arddangos deilliannau dysgu.

Ymwelodd deg cynrychiolydd o bedair prifysgol yng Nghymru â'u prifysgolion partner yn Hanoi, Can Tho, Hue a Da Nang i adolygu a rhannu'r hyn a ddysgwyd o'r prosiect ac archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithio parhaus.

I gloi'r prosiect, cynhaliwyd cynhadledd lledaenu gwybodaeth ar-lein lle rhannwyd yr adroddiad asesu ac argymhellion allanol â chynulleidfa o bob rhan o sector addysg uwch Fietnam wyneb-yn-wyneb ac yn rhithwir.

Er bod y rhaglen yn dod i ben, mae'r partneriaethau a sefydlwyd yn ystod y prosiect wedi parhau, ac mae'r sefydliadau sy'n cymryd rhan wedi dechrau gweithio gyda'i gilydd mewn meysydd prosiect newydd, gan gynnwys darparu rhaglenni a rennir, ymchwil, a symudedd staff a myfyrwyr.



# Partneriaeth Mynd yn Fyd-eang

Daeth prosiect Partneriaeth Mynd yn Fyd-eang, a drefnwyd gan Gymru Fyd-eang ac a ariannwyd yn bennaf gan y Cyngor Prydeinig, i ben ym mis Mawrth 2024 yn dilyn cydweithrediad dwy flynedd rhwng pedair prifysgol yng Nghymru a phedair prifysgol yn Fietnam.

Gan weithredu fel cydlynydd a darparu arian cyfatebol, bu Cymru Fyd-eang yn gweithio gyda rhwydwaith o wyth sefydliad i gyflawni'r prosiect dwy flynedd a oedd yn canolbwyntio ar gydraddoldeb rhywedd mewn arweinyddiaeth addysg uwch. Gweithiodd prifysgolion mewn parau rhyngwladol i rannu profiadau ac ymarfer, yn ogystal ag ymchwilio i ymagweddau trwy weithio o bell ac – ar ddiwedd y rhaglen – llunio argymhellion a fyddai'n cefnogi datblygiad yn sector addysg uwch Fietnam.

Yn ystod y prosiect, cydlynodd Cymru Fyd-eang ymweliadau gan ddirprwyaethau â Chymru a Fietnam, gyda 25 o gyfranogwyr addysg uwch yn teithio dros y ddau ymweliad. Roedd hyn yn caniatáu iddynt arsylwi a dysgu o'u profiadau, cryfhau perthnasoedd, ennill dealltwriaeth ddiwylliannol a chyd-destunol ac archwilio meysydd ar gyfer cyllido yn y dyfodol, ynghyd â phartneriaethau cydweithredol ym meysydd symudedd, cyfnewid, TNE ac ymchwil.

> Diolch am roi'r cyfle i mi ddod i wybod mwy am Gymru ac am brifysgolion Cymru. Byddaf yn cyflwyno fy myfyrwyr i brifysgolion yng Nghymru. Yn anad dim, edrychaf ymlaen at ddatblygu cydweithrediadau ymchwil rhwng y naill ochr a'r llall yn y dyfodol.

**Le Ly Thuy Tram - Pennaeth Adran, Prifysgol Da Nang**

> Gwnaeth staff GGP waith ardderchog gan gyflwyno'n dirprwyaeth i brifysgolion gorau Cymru. Rwy'n credu y gallwn i gyd ddysgu oddi wrth ein gilydd, a thrwy weithio gyda'n gilydd, byddwn yn gallu dod o hyd i ddulliau effeithiol o gyfuno ein hadnoddau.

**Hoang Thi Diep, Dirprwy Bennaeth Adran - VNU-UET**

# Ewrop

## Parhaodd Cymru Fyd-eang i ddatblygu eu gweithgareddau partneriaeth yn Ewrop, yn arbennig cryfhau cysylltiadau â phartneriaid o Fflandrys a'r Almaen; hyn wedi'i ategu gan weithgarwch recriwtio ac ymgyrchoedd Astudio yng Nghymru yn Ffrainc a'r Almaen.

Cytunodd Cymru Fyd-eang ar bartneriaeth newydd gyda'r Sefydliad Ymchwil yn Fflandrys, Fonds Wetenschappelijk Onderzoek – Vlaanderen (FWO) - i hyrwyddo cyfranogiad grwpiau ymchwil o Gymru yng ngalwad FWO 2023 am Rwydweithiau Ymchwil Gwyddonol. Cyflwynodd dwy brifysgol yng Nghymru geisiadau llwyddiannus i FWO a dyrannwyd cyllid ychwanegol iddynt gan Gymru Fyd-eang. Sicrhawyd cyllido pellach gan Lywodraeth Cymru i barhau â'r bartneriaeth ffrwythlon gyda FWO trwy Brifysgolion Cymru.

Gan weithio gyda Gwasanaeth Cyfnewid Academaidd yr Almaen (DAAD), cynhaliodd Cymru Fyd-eang sesiwn wybodaeth ar-lein am gyfleoedd cyllido i fyfyrwyr ac ymchwilwyr yng Nghymru. Mae Cymru Fyd-eang yn gweithio gyda DAAD ar ymweliad i uwch arweinwyr a dirprwy is-gangellorion ymchwil â'r Almaen yn 2024.

Cynhaliodd Cymru Fyd-eang dderbyniad ar y cyd ag Addysg Uwch Cymru Brwsel (WHEB) a Sefydliad Ymchwil a Data Cymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD) ar gyfer cyn-fyfyrwyr o brifysgolion Cymru sy'n gweithio mewn sefydliadau Ewropeaidd ym Mrwsel. Roedd y derbyniad yn gyfle i gyn-fyfyrwyr glywed am yr ymchwil gymdeithasol ac economaidd ddiweddaraf sy'n cael ei gynnal yng Nghymru ac i rwydweithio â chyn-fyfyrwyr eraill sydd wedi'u lleoli ym Mrwsel.

Bu Cymru Fyd-eang hefyd yn cynorthwyo Rhwydwaith Arloesedd Cymru (WIN) a WHEB i gynnal digwyddiad ym Mrwsel fel rhan o raglen Dydd Gŵyl Dewi Brwsel 2024 Llywodraeth Cymru, i arddangos ymchwil ac arloesedd prifysgolion Cymru. Mynychwyd y digwyddiad hwn gan yr Athro Paul Boyle, Cadeirydd Prifysgolion Cymru ac Is-Ganghellor Prifysgol Abertawe, a'r Gwir Anrh. Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru.

O dan frand Astudio yng Nghymru, bu Cymru Fyd-eang yn arddangos yn ffair astudio dramor addysg uwch l'Etudiant ym Mharis, ynghyd â phum prifysgol o Gymru, y ffair ôl-raddedig Masters & More ym Munich gyda thair prifysgol o Gymru, a'r ffeiriau recriwtio Masters & More yn Düsseldorf gyda dwy brifysgol arall o Gymru.

Wedi'i drefnu ar y cyd â Chyngor Prydeinig yr Almaen a Ffrainc, cynhaliodd Cymru Fyd-eang eu taith Astudio yng Nghymru ar gyfer cynghorwyr, gan groesawu 11 o gynghorwyr o ysgolion rhyngwladol yn yr Almaen a Ffrainc. Ymwelodd y cynghorwyr ag wyth o brifysgolion Cymru, a chawsant gyfle i arddangos eu cyfleusterau o safon fyd-eang a'u harlwy rhyngwladol i fyfyrwyr.

Cynhaliodd Cymru Fyd-eang weminar yn ystod e-gynhadledd SRT ar gyfer cynghorwyr ysgolion rhyngwladol o Ewrop, gan ymgysylltu'n uniongyrchol ag ysgolion rhyngwladol yn Ffrainc a'r Almaen.

Trefnodd Cymru Fyd-eang ddirprwyaeth i'r Almaen ar gyfer uwch arweinwyr o golegau a phrifysgolion Cymru i gryfhau'r cysylltiadau rhwng sefydliadau addysgol a'r diwydiant modurol yng Nghymru a Baden-Württemberg. Roedd y ddirprwyaeth yn cyd-daro ag ymweliad â'r rhanbarth gan Weinidog yr Economi ar y pryd, Vaughan Gething ASC ar gyfer llofnodi Datganiad ar y Cyd rhwng llywodraethau Cymru a Baden-Württemberg. Trefnwyd cyfarfod bwrdd-crwn gyda'r Gweinidog i drafod sut y gall sefydliadau addysg bellach ac uwch gefnogi'r ymrwymiadau a amlinellir yn y Datganiad ar y Cyd, a gweithio gyda Llywodraeth Cymru.



# Hybu cydweithrediad mewn ymchwil rhyngwladol gyda phrifysgolion yn Fflandrys

Mae cydweithredu rhyngwladol yn elfen bwysig mewn creu rhagoriaeth, ac mae Fflandrys yn rhanbarth ymchwil sy'n perfformio'n dda ac sy'n meddu ar adnoddau da. Mae Fflandrys a Chymru bob amser yn chwilio am ffyrdd o gynnig cyfleoedd a chymorth ariannol i'w cymunedau ymchwil i ddatblygu partneriaethau ac adeiladu eu rhwydweithiau rhyngwladol.

Cefnogodd Cymru Fyd-eang ddau o'r trefniadau cydweithredol hyn: Rhwydwaith Llinad y Dŵr Ewropeaidd Prifysgol Aberystwyth, a Chymunedau Ymarfer Treftadaeth mewn Byd Digidol Prifysgol Abertawe. Dyrannwyd cyllid ychwanegol i'r rhain gan Gymru Fyd-eang am y tair blynedd nesaf i gefnogi eu gweithgareddau o fewn y rhwydwaith ac i ddenu partneriaid i Gymru. Mae'r ddau rwydwaith llwyddiannus yn cynnwys partneriaid o ddeg sefydliad yn Fflandrys, yn ogystal â phartneriaid rhyngwladol eraill o'r Iwerddon, y Ffindir, Sweden a Denmarc.

Mae Dr Hilary Orange yn CHART (Canolfan Ymchwil a Hyfforddiant Treftadaeth) Prifysgol Abertawe'n rhan o brosiect Cymunedau Ymarfer Treftadaeth mewn Byd Digidol, a arweinir gan yr Athro Suzie Thomas ym Mhrifysgol Antwerp. Meddai hi:

Mae ein cyfranogiad yn y prosiect yn cael ei ariannu trwy gyllid ychwanegol gan Gymru Fyd-eang, sydd wedi ein galluogi i gymryd rhan mewn ymweliadau ymchwil gwerthfawr ag Antwerp, Leuven a Brwsel yn y flwyddyn gyntaf. Rydym yn edrych ymlaen at groesawu ysgolheigion o Fflandrys i Brifysgol Abertawe yn ail flwyddyn y prosiect ac at barhau i nodi synergeddau gwerthfawr a sefydlu trefniadau cydweithredol yn y dyfodol.

Ar ôl llwyddiant y fenter hon, penderfynodd FWO a Chymru Fyd-eang barhau â'r cydweithio llwyddiannus hwn a dwyn eu cryfderau ynghyd ar gyfer partneriaeth arall trwy Brifysgolion Cymru.

# Astudio yng Nghymru





## Eleni, llwyddodd Cymru Fyd-eang i sicrhau cynnydd sylweddol yng nghyrhaeddiad ac effaith brand Astudio yng Nghymru yn India, UDA, Ffrainc a'r Almaen.

Ymgyrchoedd digidol yw gweithgareddau hybu recriwtio craidd Cymru Fyd-eang, gan godi ymwybyddiaeth o frand Astudio yng Nghymru a chynorthwyo â recriwtio israddedig ac ôl-raddedig yn India, UDA, Ffrainc a'r Almaen.

Cynhaliwyd dwy ymgyrch farchnata recriwtio dri-mis yn ystod y flwyddyn ar draws Meta, Google Search, Google Display, Performance Max, YouTube, TikTok, Snapchat a Reddit, yn ogystal â chwiliad taledig parhaus ar Google. Trefnwyd ymgyrch pedair-wythnos ychwanegol yn India yn gyflym ym mis Mehefin 2024 i gynorthwyo â heriau recriwtio'r sector. Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd Astudio yng Nghymru 417 miliwn o weithiau gan ddarpar fyfyrwyr a dylanwadwyr, gyda thros chwe miliwn o gliciau i'r wefan ac 86,000 o ymweliadau â phroffiliau a gwefannau prifysgolion Cymru.

Parhaodd Cymru Fyd-eang i fabwysiadu ymagwedd 'bob amser yn fyw' at greu cynnwys ar gyfer y wefan a sianeli cyfryngau cymdeithasol. Hanfod y cynnwys craidd oedd: profiad gwych i fyfyrwyr; rhagoriaeth academaidd ac ansawdd addysgu a sefydliadau; cyflogadwyedd a chyfleoedd gyrfa; a fforddiadwyedd a diogelwch. Datblygwyd strategaeth eleni o ran y cynnwys ar ôl cynnal cyfres o grwpiau ffocws gyda myfyrwyr rhyngwladol yng Nghymru, gan sicrhau y byddai'r deunydd yn berthnasol ac yn cael effaith. Cynhyrchodd tîm Astudio yng Nghymru dros 50 darn o fideo a deunydd ysgrifenedig gyda 13 o lysgenhadon myfyrwyr o chwe phrifysgol a choleg.

Ar draws y flwyddyn, mae cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Astudio yng Nghymru gyda'i gilydd wedi sicrhau 364,000 o argraffiadau o 830 o negeseuon, a arweiniodd at 16,600 o ymgysylltiadau a 2,200 o ddilynwyr newydd. Yn ogystal, mae cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Cymru Fyd-eang wedi creu 150,000 o argraffiadau o 410 o negeseuon, gan arwain at 12,000 o ymgysylltiadau a 900 o ddilynwyr newydd.

Parhaodd Cymru Fyd-eang â'u trefniant cydweithredol llwyddiannus â brand Study UK y Cyngor Prydeinig, gan greu cyfres o fideos i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan astudio i gynulleidfa sylfaenol eang Study UK. Cynhyrchwyd a rhannwyd 13 eitem dros dri mis, gan roi sylw i saith myfyriwr rhyngwladol o bob rhan o Gymru. Rhannodd Study UK y rhain ar draws sianeli y mae'n berchen arnynt a'r rhai y mae'n talu amdanynt, gan gyfeirio'r holl draffig at wefan Astudio yng Nghymru. Unwaith eto, bu'r bartneriaeth hon yn llwyddiannus iawn, gan arwain at 11.4 miliwn o argraffiadau, 3 miliwn o ymgysylltiadau, 2.5 miliwn o ymweliadau fideo a 24.5K o gliciau dolen.

Yng Nghymdeithas Addysgwyr Rhyngwladol NAFSA a Chymdeithas Ewropeaidd Addysg Ryngwladol EAIE, dau o'r digwyddiadau addysg uwch byd-eang mwyaf, roedd sefydliadau'n gallu arddangos dan frand Astudio yng Nghymru. Yn ogystal â phartneriaethau symudedd, mae sgyrsiau a gynhaliwyd yn NAFSA wedi arwain at brifysgolion yn hyrwyddo eu gweithgarwch partneriaeth eu hunain mewn meysydd eraill, megis ymchwil. Croesawodd y digwyddiadau 15,500 o broffesiynwyr addysg, gyda thîm Cymru Fyd-eang yn ymgysylltu â thros 60 o sefydliadau, a'r prifysgolion yn cyfarfod â thros 210 o bartneriaid newydd a 278 sydd ganddynt eisoes.


# Ymgyrch haf India

Ym mis Mehefin 2024, lansiodd Cymru Fyd-eang ymgyrch Astudio yng Nghymru pedair-wythnos yn targedu darpar fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig, yn ogystal â rhieni a dylanwadwyr yn Delhi, Mumbai, Bengaluru a Hyderabad. Pwysleisiodd yr ymgyrch y croeso cynnes y mae Cymru'n adnabyddus amdano ac ansawdd rhagorol y prifysgolion; hefyd amlygwyd negeseuon allweddol ynghylch parhad llwybr y graddedigion a'r cyfleoedd y mae astudio yng Nghymru yn eu cynnig i fyfyrwyr o bob cwr o'r byd. Cynhaliwyd yr ymgyrch hon fel datrysiad i helpu â chefnogi'r sector Cymreig yn wyneb recriwtio rhyngwladol hynod ansicr, gan geisio hyrwyddo recriwtio ar gyfer derbyniadau Medi 2024 ac Ionawr 2025 yn India.

Gwelwyd yr ymgyrch dros 99 miliwn o weithiau gan ddarpar fyfyrwyr a dylanwadwyr. Cafwyd dros 1 miliwn o gliciau i'r wefan a thros 43,000 o ymweliadau â phroffiliau a gwefannau prifysgolion Cymru.

Yn ogystal â'r ymgyrch hon, bu Cymru Fyd-eang yn gweithio gydag Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Addysg i recordio dwy neges fideo o groeso i fyfyrwyr rhyngwladol, gyda'r bwriad o dawelu meddyliau cynulleidfaoedd rhyngwladol a lleddfu canfyddiadau negyddol o astudio yn y DU a ddaeth yn sgil y ddadl ehangach ar fewnfudo. Roedd y fideos, un ohonynt yn benodol ar gyfer India a'r llall yn targedu'r gynulleidfa ryngwladol ehangach, yn pwysleisio gwerth diwylliannol myfyrwyr rhyngwladol i Gymru, y croeso a'r profiad rhagorol a gynigir i fyfyrwyr, yn ogystal â llwybr y graddedigion a'r cyfleoedd ar gyfer cyflogadwyedd sydd ar gael i fyfyrwyr rhyngwladol.



# Ysgoloriaethau

## Mae Cymru Fyd-eang wedi parhau i gyflwyno eu rhaglen ysgoloriaethau, gan greu llysgenhadon oes ar gyfer Cymru a'i sefydliadau.

Darparodd Cymru Fyd-eang gyllid i alluogi 36 o ysgolheigion i gwblhau eu holl astudiaethau, neu ran ohonynt, yng Nghymru, gan dderbyn 1,562 o geisiadau. Darparwyd cyllid ar draws pedair rhaglen ysgoloriaeth unigol: sef Ysgoloriaeth Ôl-raddedig Cymru Fyd-eang ei hun, a chyllid partneriaeth â Chevening, Comisiwn Fulbright UDA-DU a Rhaglen Ysgoloriaeth Gilman.

Trwy gydol y flwyddyn, llwyddodd Cymru Fyd-eang i gyflwyno cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu ag ysgolheigion â'r nod o greu llysgenhadon gydol oes ar gyfer Gymru a fydd yn hyrwyddo manteision astudio mewn prifysgol yng Nghymru. Yn ogystal â rhwydweithio, rhoddodd un digwyddiad ymgysylltu ar-lein a phedwar digwyddiad wyneb-yn-wyneb gyfle i ysgolheigion ddysgu mwy am ddiwylliant, iaith a thirwedd Cymru.

Ym mis Hydref, gwahoddwyd ysgolheigion Cymru Fyd-eang a'r rhai a ariennir gan y Cyngor Prydeinig i ddigwyddiad ar y cyd ym Mhrifysgol Caerdydd, gyda chroeso ffurfiol gan Dr Ben Calvert, cadeirydd Cymru Fyd-eang a Ruth Cocks, Cyfarwyddwr Cyngor Prydeinig Cymru.

Roedd digwyddiad cyflogadwyedd deuddydd a gynhaliwyd yn Aberystwyth yn cynnwys gweithdy datblygu ar y thema 'Arweinyddiaeth mewn Cyd-destun Byd-eang', ynghyd ag ymweliad diwylliannol â Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mewn adborth, dywedodd 100% o'r mynychwyr fod eu profiad yn 'ardderchog'.

Gan gyfeirio at y digwyddiadau ymgysylltu ar gyfer ysgolheigion, dywedodd ysgolhaig Cymru Fyd-eang o Fietnam, Minh Huyen La: "Mae cael fy newis fel Ysgolhaig Cymru Fyd-eang nid yn unig wedi cyfoethogi fy nhwf personol ond hefyd wedi fy narparu â mewnwelediadau a sgiliau gwerthfawr sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at fod o fudd i eraill a'r gymuned. Mae'r profiad hwn wedi fy mharatoi ar gyfer fy ymdrechion yn y dyfodol."

Agorodd ceisiadau am Ysgoloriaethau Ôl-raddedig Cymru Fyd-eang ar gyfer mynediad yn 2024/25 ar 6ed Mawrth a daeth i ben ar 30ain Ebrill. Cyfanswm y ceisiadau am wyth ysgoloriaeth oedd 664 o UDA, Canada, India, Ewrop a Fietnam.

# Ysgolhaig Cymru Fyd-eang Srushti (India)

Astudiodd Srushti ar gyfer gradd meistr mewn rhith-realiti ym Mhrifysgol Abertawe. Fel derbynnydd Ysgoloriaeth Ôl-raddedig Cymru Fyd-eang, mae'n dweud ei bod wedi datblygu'n bersonol ac yn broffesiynol ers cyrraedd i astudio yng Nghymru.

"Mae astudio yng Nghymru'n cynnig profiad diwylliannol unigryw," meddai Srushti. "Cewch gyfle i archwilio tirweddau hardd, ymgysylltu â hanes a diwylliant Cymru, a gwneud ffrindiau o bedwar ban byd. Mae'r awyrgylch groesawgar a bywyd myfyriwr bywiog yn ei gwneud hi'n hawdd teimlo'n gartrefol yma.

Mae Srushti yn credu bod ei phrofiad yng Nghymru wedi dylanwadu'n sylweddol ar ei chynlluniau ar gyfer y dyfodol. Meddai hi: "Mae fy mhrofiad o astudio yng Nghymru wedi bod yn wirioneddol werth chweil; mae fy nghwrs wedi canolbwyntio ar anghenion presennol y diwydiant a fydd o fantais i fy ngyrfa.

Mae'r cwrs yn ein darparu â chymaint o'r dechnoleg sy'n cael ei defnyddio yn fy niwydiant. Mae astudio yng Nghymru wedi rhoi cyfle i mi archwilio fy maes, ac mae fy mhrifysgol mor gefnogol; mae pawb yma'n barod i'ch helpu ni, waeth pa mor fawr neu fach yw'r cais.

Mae profiadau Srushti yn adlewyrchu amcanion ehangach rhaglen Ysgoloriaethau Ôl-raddedig Cymru Fyd-eang, sy'n ceisio darparu myfyrwyr rhyngwladol nid yn unig â thwf academaidd ond hefyd ddealltwriaeth a gwerthfawrogiad dyfnach o ddiwylliant Cymru.



# Addysg Bellach

Dyma'r ail flwyddyn i'r sector addysg bellach integreiddio â rhaglen Cymru Fyd-eang. Mae'r ffocws yn parhau i fod ar ddatblygu partneriaeth mewn marchnadoedd blaenoriaeth a chodi proffil rhyngwladol colegau Cymru yn fyd-eang, yn unol â Strategaeth Ryngwladoli'r sector ei hun.

Trefnodd Cymru Fyd-eang dair dirprwyaeth dramor ar gyfer arweinwyr ac ymarferwyr addysg bellach mewn partneriaeth â CholegauCymru. Teithiodd uwch arweinwyr addysg bellach i Stuttgart i archwilio a chryfhau'r cysylltiadau rhwng addysg alwedigaethol a'r diwydiant modurol yn nhalaith Baden-Württemberg, gan gyd-daro ag arwyddo Datganiad ar y Cyd rhwng llywodraethau Cymru a Baden-Württemberg.

Ymwelodd dirprwyaeth oedd yn cynnwys arweinwyr o bum coleg yng Nghymru â dwy dalaith flaenoriaeth yn India, sef Karnataka a Telangana, i gwrdd â chynrychiolwyr llywodraeth y taleithiau hyn a phartneriaid posibl eraill. Dysgodd y grŵp fwy am y system addysg a hyfforddiant galwedigaethol ac ôl-uwchradd yn y taleithiau hyn a dathlu lansiad blwyddyn "Cymru yn India" mewn derbyniad Dydd Gŵyl Dewi yn Bengaluru.

Cynorthwyodd Cymru Fyd-eang gyfranogiad arweinwyr o dri choleg Cymreig yng nghynhadledd flynyddol Colegau ac Athrofeydd Canada (CICan) yn Calgary. Cyflwynodd cydweithwyr o Goleg Sir Gâr sesiwn ar addysgu a dysgu, yn ogystal â'u profiadau o ddatblygu diwylliant o chwilfrydedd yn y coleg. Arddangosodd Cymru Fyd-eang yn y gynhadledd, gan hyrwyddo cryfder y sector addysg bellach yng Nghymru, gan gyfarfod â nifer o golegau ac athrofeydd o Ganada oedd â diddordeb mewn cydweithredu yn y dyfodol.

Yn India, dyrannwyd cyllid Cymru Fyd-eang i Grŵp Colegau NPTC a Grŵp Llandrillo Menai i gyflawni dau brosiect a hwyluswyd gan Gylch Ymchwil ac Arloesedd Hyderabad (RICH). Y cyntaf o'r rhain oedd gweithdy rhagarweiniol pum-diwrnod ym maes cerbydau trydan (EV) yng Ngholeg Peirianneg a Thechnoleg Geethanjali yn Hyderabad i hyfforddi myfyrwyr o Indiai ar gyfer y diwydiant cerbydau trydan. Yn dilyn llwyddiant y prosiect hwn, cynorthwyodd Cymru Fyd-eang y ddau goleg o Gymru i gynnal asesiad o'r diwydiant cerbydau trydan ar draws Telangana a Karnataka.

Dyrannodd Cymru Fyd-eang arian ail-gam ar gyfer prosiect partneriaeth a arweiniwyd gan Goleg Sir Gâr gyda chwe choleg o Gymru'n cymryd rhan, yn dilyn y ddirprwyaeth ragarweiniol i Baden-Württemberg. Mae'r colegau'n gweithio gyda sefydliadau galwedigaethol yn Baden-Württemberg i archwilio datblygiad cymwysterau lefel uwch mewn peirianneg fodurol, gan ganolbwyntio'n benodol ar integreiddio sgiliau gwyrdd ochr-yn-ochr â thechnolegau sy'n bodoli eisoes.

# Llywodraethiant

Mae gweithgareddau Cymru Fyd-eang, gan gynnwys y rhai o dan Gymru Fyd-eang III, yn gweithredu o fewn strwythur llywodraethiant Prifysgolion y DU gyda chyngor strategol yn cael ei ddarparu gan Fwrdd Cymru Fyd-eang.

## Bwrdd Cymru Fyd-eang

Mae Bwrdd Cymru Fyd-eang yn gyfrwng i'r bartneriaeth rannu gwybodaeth, nodi gweithgareddau posibl ar y cyd a darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddatblygiadau. Mae'r Bwrdd hefyd yn gweithredu fel bwrdd cynghori strategol ar gyfer prosiect Cymru Fyd-eang III, ac yn sgil hynny, mae'n cynnwys Taith fel cyllidwr a chynrychiolydd addysg bellach fel partner yn y prosiect.

## Aelodau

**Dr Ben Calvert (Cadeirydd),** Is-Ganghellor a Phrif Weithredwr, Prifysgol De Cymru

**Ruth Cocks,** Cyfarwyddwr, y Cyngor Prydeinig yng Nghymru

**Dr Andrew Cornish,** Pennaeth a Phrif Weithredwr, Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion

**Dr Angharad Penny Evans,** Pennaeth Addysg Drydyddol Ryngwladol, Llywodraeth Cymru

**Craig Goodwin,** Pennaeth Brand Cymru, Llywodraeth Cymru

**Andrew Gwatkin,** Cyfarwyddwr, Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach, Llywodraeth Cymru

**Susana Galván Hernández,** Cyfarwyddwr Gweithredol, Taith

**Nicola Hunt,** Uwch Reolwr Ansawdd a Gwelliant Parhaus, Medr

**Amanda Wilkinson,** Cyfarwyddwr, Prifysgolion Cymru

## Pwyllgor Prifysgolion Cymru

Mae Pwyllgor Prifysgolion Cymru, yn ei rôl fel Cyngor Cenedlaethol Cymru o sefydliad Prifysgolion y DU (UUK), yn gweithredu fel Bwrdd ar gyfer y Rhaglen gyda chyfrifoldeb am awdurdodi a chymeradwyo'r Cynllun Gweithredu a gweithgareddau y cytunwyd arnynt ar gyfer y rhaglen. Hefyd adolygu'r sefyllfa gyllidol a datganiadau ariannol arferol, ynghyd â chadarnhau diweddariadau monitro parhaus ac adroddiadau cyn eu cyflwyno.

## Aelodau

**Yr Athro Paul Boyle (Cadeirydd),** Is-Ganghellor, Prifysgol Abertawe

**Yr Athro Edmund Burke,** Is-Ganghellor, Prifysgol Bangor

**Dr Ben Calvert,** Is-Ganghellor a Phrif Weithredwr, Prifysgol De Cymru

**Yr Athro Elwen Evans, KC,** Is-Ganghellor, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

**Yr Athro Rachel Langford,** Is-Ganghellor, Prifysgol Metropolitan Caerdydd

**Yr Athro Wendy Larner,** Is-Ganghellor, Prifysgol Caerdydd

**Ben Lewis,** Cyfarwyddwr, Y Brifysgol Agored yng Nghymru

**Yr Athro Jon Timmis,** Is-Ganghellor, Prifysgol Aberystwyth

**Yr Athro Joe Yates,** Is-Ganghellor, Prifysgol Wrecsam

## Prifysgolion y DU


Sefydliad Prifysgolion y DU (UUK), sef y rhiant gorff ar gyfer Prifysgolion Cymru, yw'r endid cyfreithiol a enwir ar gyfer derbyn a rheoli cyllid Cymru Fyd-eang III gyda chyfrifoldeb cyfreithiol am fodloni amodau grant a throsolwg, trwy Fwrdd UUK a'i Bwyllgor Archwilio a Risg, i sicrhau bod yr amodau hyn wedi'u bodloni.

# Crynodeb Ariannol Cymru Fyd-eang III

## Sefyllfa diwedd blwyddyn

Roedd gan Gymru Fyd-eang III gyllideb wreiddiol o £2,464,353 ar gyfer Blwyddyn 2. Mae toriadau o 50% a ddaeth i rym o 1af Ebrill 2024, wedi gostwng y gyllideb hon i £2,018,225. Ar 31ain Gorffennaf 2024, y gwariant blynyddol oedd £1,912,471.

Mae dadansoddiad o wariant Cymru Fyd-eang III fesul maes rhaglen wedi'i amlinellu isod.



+44 (0)29 2044 8020
international@uniswales.ac.uk
uniswales.ac.uk/our-work/global-wales
studyinwales.ac.uk
@wales_global
linkedin.com/company/global-wales

Ariennir Cymru Fyd-eang III gan
Lywodraeth Cymru drwy Taith

Ariennir gan
Funded by
Taith

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government